

Rhiannon Hughes-2104341

BA Darlunio/Illustration – Ail Flwyddyn

Research in Context- ADAD5003C

Tiwtor- Alice Samuels

Nifer o eiriau- 2255

Cwestiwn 2: Dadansoddwch waith darlunwyr ac, yn arbennig, awdur darlunydd sy'n mynd i'r afael â themâu anodd, sensitif ac weithiau ysgytwol.

Bydd y traethawd yma yn edrych ar y themâu o iselder, wrth gynnwys gwybodaeth wyddonol am y pwnc, astudiaethau ar ddealltwriaeth plant o'r cyflwr, a trafod sut y maent yn cael y wybodaeth yma yn bennaf drwy lyfrau a storiâu. Yna, y bydd yn cynnwys dadansoddiad o waith dau awdur/darlunydd llyfrau plant sydd yn ymdrin â'r mater anodd ag sensitif yma. Hefyd bydd yn cymharu â chyferbynnu gwaith y ddau awdur/darlunydd, sef llyfr Eva Eland; *'When Sadness Comes To Call'* (Eland 2019), a llyfr Shaun Tan; *'The Red Tree'* (Tan 2001) er mwyn dod i ddeall y pwysigrwydd o ddysgu plant am dristwch, teimladau negyddol, a bod y isel, a ffeindio'r ffordd orau o gynrychioli hynna i wahanol oedrannau fel maent yn dysgu yn hawdd.

Yn ôl y DSM5, (cyfeirlyfr proffesiynol a prif ganllaw ar gyfer darparwyr iechyd meddwl yn yr Unol Daleithiau ar iechyd meddwl a chyflyrau sy'n gysylltiedig â'r ymennydd) mae yna lawer o wahanol fathau o anhwylderau iselder. "The common feature of all of these disorders is the presence of sad, empty, or irritable mood, accompanied by somatic and cognitive changes that significantly affect the individual's capacity to function." (American Psychiatric Association 2013) Gall unrhyw berson o unrhyw oed

dioddef o ryw fath o iselder “however, little is known about how children and adolescents understand depression” (Georgakakou-Koutsonikou, Taylor, and Williams 2019).

Er ond ychydig a wyddom am sut mae plant a phobl ifanc yn deall iselder, mae yna rai astudiaethau o gwmpas y mater. Enghraifft o hyn ydy un ACAMH (The Association for Child and Adolescent Mental Health). Cynaliasant astudiaeth i archwilio sut mae plant yn deall iselder, trwy hefyd archwilio a yw oedran, rhyw a phrofiad o iselder, neu gysylltiad â phobl ag iselder, yn gysylltiedig â dealltwriaeth plant. (Georgakakou-Koutsonikou, Taylor, and Williams 2019) Yn yr astudiaeth yma gwnaethon nhw gyfweiliadau unigol gyda 105 o blant, 38 o blant 8-9 oed, a 67 o blant 11-12 oed. (Georgakakou-Koutsonikou, Taylor, and Williams 2019) I gyflwyno'r pwnc, crëwyd tair stori fer yn disgrifio cymeriadau ffuglennol o blant a phobl ifanc ag iselder, yn ogystal â stori reoli o gymeriad heb symptomau iselder a'i darllen i bob plentyn. (Georgakakou-Koutsonikou, Taylor, and Williams 2019) Canlyniadau'r astudiaeth oedd;


“The majority of children identified that the characters in the stories had a difficulty of a psychological nature, in comparison to the control story. Approximately half of the children considered this difficulty to be a mental health problem, and less than one-fifth were able to label this difficulty as depression.” (Georgakakou-Koutsonikou, Taylor, and Williams 2019)

Dangosir hyn, yn gyffredinol, fod plant efo dealltwriaeth dda o adnabod brwydrau seicolegol mewn eraill yn enwedig wrth glywed storiâu.

Roedd darllen stori iddynt yn yr astudiaeth yma yn ddull addas, gan mai trwy storiâu mae plant yn dysgu llawer yn y blynyddoedd cynnar. Mae llyfrau plant yn hynod o

bwysig ar gyfer helpu iddynt “learn new words and phrases, experience a range of emotions, and acquire skills and knowledge.” (Collier 2019) Hefyd mae’n bosib iddynt ddatblygu sgiliau llafar, darllen, ag cynyddu’r gall cymdeithasol hanfodol o gydnabod ac ymarfer empathi, trwy ddarllen a chlywed straeon. “Frequent shared book reading in the home is associated with increased vocabulary for children”. (Montag, Jones, and Smith 2015) Yn ogystal, mae’n ddefnyddiol ar gyfer datblygiad yr ymennydd; “the effects of reading on child development are vast.” (Collier 2019) Manteision y gall darllen eu cael ar ddatblygiad plentyn, er enghraifft, ydy; cynorthwyo datblygiad gwybyddol, datblygu empathi, ennill dealltwriaeth ddyfnach, a gallu adeiladu perthnasoedd cryfach. (Collier 2019) Yn ôl rhai damcaniaethau, mae darllen llyfrau yn cynhyrchu “extra text caregiver-child dialogue, that books are not limited to discussion of concrete and present items and events, and that books have a narrative structure.” (Montag, Jones, and Smith 2015) Felly, trwy hyn, gall plentyn, o bosib, siarad yn agored a gofyn mwy o gwestiynau am themâu dwys gan eu bod wedi dod i ddeall mwy am y byd drwy esiamplau o storiâu mewn llyfrau. Os gellir neud hyn fel plentyn, bydd yn help mawr iddyn nhw fel oedolyn gyda chymdeithasu yn empathetig, wrth ddeall emosiynau eu hunain ac eraill. (Collier 2019) Yn ogystal â storiâu eu hunain yn helpu datblygiad, mae darluniau yn amlwg yn cyd-fynd a hyn ag yr un mor bwysig. “The illustrations of a picture book help children understand what they are reading and allow young readers to analyze the story. When children are having difficulty, the illustrations can help them figure out the meaning of what they are reading.” (The Children’s Book Review: Growing Readers) Galluogir y darluniau yn y llyfrau iddynt ddatblygu eu dychymyg hefyd, a delweddu beth glywir yn eiriau'r stori sydd yn ddefnyddiol mewn amryw o ffyrdd megis creadigrwydd, gall datrys problemau, a thwf personol.

Un esiampl o awdur a darlunydd llyfrau plant sydd yn mynd i'r afael a'r themâu sensitif o iselder ydy, dynas Iseldireg o'r enw Eva Eland sy'n byw yn Amsterdam. (Andersen Press 2023) Mae hi yn gwneud llyfrau plant yn defnyddio'r dechneg o risograff. Un o'i llyfrau ydy '*When Sadness Comes To Call*' (Eland 2019) ar gyfer plant pedwar oed i fynu sydd hefyd yn rhan o gyfres o lyfrau am ddelio gydag emosiynau mawr. Mae'r llyfr hwn yn archwilio'r emosiwn o dristwch mewn ffordd sensitif ac yn amlygu'r pwysigrwydd o dderbyn y teimlad. Y stori ydy; mae'r cymeriad o 'tristwch' yn dod i ymweld â phlentyn yn annisgwyl. Ond pan mae'n gadael 'tristwch' i mewn trwy'r drws, mae'n darganfod nad yw'r ymwelydd rhyfedd hwn fel mae'n ymddangos.




Ffigwr 1 '*When Sadness Comes To Call*' (Eland 2019)

Yn y llyfr '*When Sadness Comes To Call*' (Eland 2019), mae'r cymeriad o 'tristwch' yn cael ei gynrychioli fel blob mawr ddwbl maint y plentyn. Gyda nodweddion anthropomorffig, sef y broses o aseinio nodweddion dynol i endidau nad ydynt yn ddynol, (Gray 2019) fel breichiau, coesau, llygaid a cheg, mae'r cymeriad yn adnabyddol ar unwaith drwy'r ffordd mae'n sefyll yn edrych lawr efo hwyneb trwm.

Hefyd, mae Eland wedi dylunio'r cymeriad i fod yn lliw glas golau ac yn debyg i ddeigryn, sydd yn ffitio'r emosiwn mae yn cynrychioli yn dda. Gan ei bod wedi defnyddio'r dechneg o risograff, sef 'essentially an automated screenprinting machine that looks like a photocopier' (Thomas 2015), mae'r llyfr gyda phalet lliw cyfyngedig ac mae'r cymeriad o 'tristwch' yn eithaf tryloyw. Gall hyn gael ei dehongli fel ei fod yn ehangu'r neges fod 'tristwch' ddim bob amser yn weledol ond hefyd yn gallu llethu'r person sydd yn ei dioddef. Gwelir hyn mwy pan mae 'tristwch' yn agos iawn i'r plentyn ac mae'r ddau gymeriad yn cyfuno. Yn gyfan gwbl, mae'r llyfr yma yn finimalaidd, efo cefndir plaen gwyn ac yn defnyddio llinellau meddal brown i'r gwrthrychau ychwanegol e.e. bwrdd a chadeiriau i beidio cymryd y sylw i ffwrdd o'r prif gymeriadau. Mae'r plentyn wedi'i dylunio yn debyg, efo amlinelliad meddal a brown efo côt ac esgidiau pinc golau. Ysgrifennodd y geiriau i'r stori yn daclus â llaw mewn ffordd strwythuredig sy'n cyd-fynd gyda'r darluniau syml priodol i ddealltwriaeth plant pedwar oed i fyny.

Llyfr plant arall sydd yn delio efo'r themâu yma ydy; '*The Red Tree*' (Tan 2001) gan Shaun Tan. Mae'r llyfr ar gyfer plant 6-11 oed. Un o'r 'most widely acclaimed artists and authors' (Beinart Gallery 2023) yn Awstralia ydy'r awdur darlunydd yma. Mae'n fwyaf adnabyddus am lyfrau darluniadol sy'n ymdrin â phynciau cymdeithasol a hanesyddol trwy ddelweddau breuddwydiol. Gyda sensitifrwydd a rhyfeddod, mae geiriau a delweddau atgofus Shaun Tan yn agor ffenestr i'n hemosiynau anesboniadwy ac yn adrodd stori am bŵer gobaith, adnewyddiad ac ysbrydoliaeth. (Beinart Gallery 2023) Stori drosiadol ydy '*The Red Tree*' (Tan 2001) sy'n archwilio teimladau o ansicrwydd, anobaith a bod yn isel, sydd yn diweddu efo'r neges fod teimladau fel hyn ddim yn para am byth a bod yna obaith.



Ffigwr 2 '*The Red Tree*' (Tan 2001)

Mae'r llyfr yma yn ofnadwy o fanwl a gwaedol, gyda'r darluniau allan o gyfryngau cymysg. "Tan starts his paintings with thin layers of acrylic over white lines on a dark background, working from dark to light and continuing with oil for the final rendering." (Parker 2007) Cynrychiolir tristwch trwy'r defnydd o'r palet lliwiau, cysgodion a golau, a chymhariaeth maint cefndiroedd y darluniau a'r cymeriad o blentyn, yn y llyfr yma. 'Times New Roman' ydy'r ffont a ddefnyddiwyd ar gyfer ysgrifennu'r stori yma a osodwyd mewn ffordd anstrwythuredig. Fel y mae'r teitl yn ei awgrymu, defnyddir coeden i gynrychioli emosiwn yn ddarluniau'r llyfr yma. Mae hyn yn dechrau gydag ychydig o ddail tywyll, bron yn ddu, wedi'u gwasgaru yn ystafell y prif gymeriad, ac yna'n symud ymlaen i lenwi'r ystafell bron yn gyfan gwbl. Yng nghanol y llyfr, ni welir y dail, yn hytrach mae pethau eraill megis adeiladau a golygfeydd anferth yn cynrychioli brwydrau'r cymeriad gydag anobaith. Yn y diwedd daw'r stori yn ôl i'r ystafell a oedd yn llawn dail, ond mae wedi'i newid i goeden goch newydd egino, sy'n cynrychioli gobaith. Gorffennwyd y stori efo'r goeden yn tyfu hyd yn oed yn fwy na'r

ystafell. Felly, y goeden sydd yn clymu'r stori at ei gilydd.

Mae yna lawer o wahaniaethau a thebygrwydd rhwng y llyfrau *'When Sadness Comes To Call'* (Eland 2019) ac *'The Red Tree'* (Tan 2001). Mae'r ddau artist wedi taclo'r dasg o greu llyfrau ar deimlo teimpladau dwys mewn ffordd unigryw gyda gwahaniaethau yn y lluniau ac ysgrifen. Un gwahaniaeth ydy'r gynulleidfa darged, sef 4 oed i fyny i ffigwr 1, ac 6-11 oed i ffigwr 2. Crëwyd hyn wahaniaeth yn steil, awyrgylch a theimlad y llyfrau sydd yn bwysig ar gyfer dealltwriaeth y plentyn sy'n buddsoddi yn y cynnyrch. Er mwyn fod yn addas i'r grwpiau oed, does dim llawer o debygrwydd yn edrychiad y darluniau ond bod y prif gymeriad yn blentyn bach i fod yn gyfnewidiol a personol. Minimalaidd, plaen a syml ydy delweddau ffigwr 1, sy'n briodol i'r grŵp oed ieuengach gan fod ddim yn rhy gymhleth i dal ei sylw a pheidio ei llethu. Yn gyferbyn, gwaedol ydy darluniau ffigwr 2, yn llenwi rhan fwyaf o'r tudalennau efo manylder aruthrol. Mae hyn yn briodol i'r grŵp oed hun sydd fel arfer yn cymryd mwy o sylw ac amser yn edrych ar y lluniau, cymryd popeth i mewn i wir ddeall y stori, a mwynhau beth maent yn gweld, gan fod eu hymennydd wedi datblygu mwy na grŵp darged ffigwr 1. Yn ogystal, mae lliwiau a thechnegau'r ddau yn wahanol iawn. Mae darluniau ffigwr 1 wedi'i greu a Risograff gyda phaled paent cyfunedig a lliwiau golau, tra mae darluniau ffigwr 2 allan o gyfryngau cymysg megis paent olew a.y.y.b gyda lliwiau tywyll. Stori lythrennol ydy un ffigwr 1, syth i'r pwynt wedi'i ysgrifennu â llaw yn daclus ac yn strwythuredig, tra mae un ffigwr 2 yn drosiadol a cryptig, wedi'i ysgrifennu yn anstrwythuredig mewn ffont 'Times New Roman' sy'n cyfateb i ddarluniau'r ddau lyfr.

Un tebygrwydd sydd rhwng y ddau lyfr yma yn bennaf, sef y neges, er bod yr iaith a ddefnyddir yn wahanol iawn, gydag un ffigwr 1 yn syml, ac un ffigwr 2 yn farddonol a

dyfnach. Cychwynnir y ddwy stori efo'r gair 'Sometimes', sydd yn amlygu fod y teimladau anodd a thrafodir ddim yn parhau am byth. Mae hyn yn ffordd dda o gychwyn siarad am y mater o dristwch oherwydd dydy o ddim yn fygythiol, yn hytrach mae'n ddeniadol ac yn gwneud i'r darllenwr teimlo yn saff fod yr emosiwn tywyll yma ond yn anghysur dros dro. Gorffennir y ddwy stori gyda thwist positif, efo un ffigwr 1 yn dweud "When you wake up, it might be gone. Don't worry- today is a new day." (Eland 2019) wedi' baru efo darlun o blentyn yn effro heb dristwch wrth ei ymyl, yn cael yn barod am ddiwrnod gwell. Yn debyg, brawddeg olaf ffigwr 2 ydy; "but suddenly there it is right in front of you bright and vivid quietly waiting just as you imagined it would be." (Tan 2001) yn cyfeirio at y darlun o goeden goch sydd yn egino yn ystafell y plentyn ac yna yn tyfu yn fawr yn cynrychioli gobaith.

I gloi, mae tystiolaeth drwy amryw o astudiaethau, fod plant efo'r gallu i ddysgu yn fuan iawn am iechyd meddwl ac emosiynau anodd, yn bennaf trwy storiâu, yn enwedig rhai mewn llyfrau plant gyda lluniau. Felly, mae'n hynod o bwysig cael digonedd o lyfrau plant (gyda darluniau addas ar gyfer pob grŵp oedran) ar bynciau anodd, sensitif a heriol fel iselder a thristwch, i'w helpu i ddeall teimladau ac emosiynau eu hunain a phobl eraill, i greu cymdeithas empathetig. Mae hyn oherwydd mae darllen yn chwarae rôl fawr yn ddatblygiad ymennydd plant, gan gynnwys sgiliau pwysig fel sgiliau llafar, sy'n galluogi iddynt wneud pethau fel rhoi eu teimladau mewn i eiriau, er mwyn byw bywyd o ansawdd. Gyda llyfr Eva Eland; *'When Sadness Comes To Call'* (Eland 2019), a llyfr Shaun Tan; *'The Red Tree'* (Tan 2001) fel esiamplau, gallan ddod i'r canlyniad fod yna mwy nac un ffordd i gynrychioli a darlunio tristwch. Y ddau brif ffordd wahanol gall ei weld drwy'r ddau lyfr esiampl yma ydy; cynrychiolaeth lythrennol, ac yn gyferbyn, cynrychiolaeth drosiadol. Mae'r ddau yn ffyrdd effeithiol iawn o ddod i afael a'r themâu, yn enwedig wedi' addasu ar

gyfer grŵp oed darged penodol y llyfrau sydd hefyd yn dangos pwysigrwydd o gael amrywiaeth o lyfrau lluniau i blant gan fod bob plentyn yn unigryw ac mewn cyfnodau gwahanol o'u datblygiad. Dysgwn o'r esiamplau yma hefyd fod creu llyfrau plant o'r fath yma yn dasg sensitif ac mae'n bwysig bod gobaith ydy'r brif neges bob tro i gefnogi ac annog y darllenwyr yn fywyd go iawn.

American Psychiatric Association (2013) *Diagnostic and Statistical Manual of Mental Disorders Fifth Edition* America: American Psychiatric Publishing

Andersen Press (2023) Eva Eland Biography

Ar gael ar: <https://www.andersenpress.co.uk/authors-illustrators/eva-eland/>

(Cyrchwyd: 25ain o Dachwedd 2023)

Beinart Gallery (2023) Shaun Tan

Ar gael ar: <https://beinart.org/collections/shaun-tan>

(Cyrchwyd: 25ain o Dachwedd 2023)

Collier. E (2019) *Why is Reading so Important for Children?*

Ar gael ar:

<https://www.highspeedtraining.co.uk/hub/why-is-reading-important-for-children/>

(Cyrchwyd: 25ain o Dachwedd 2023)

Eland. E (2019) *When Sadness Comes To Call* Great Britain: Andersen Press Ltd

Georgakakou-Koutsonikou. N, Taylor. E, Williams. J (2019) *Children's Understanding of Depression*

Ar gael ar:

<https://www.acamh.org/research-digest/childrens-understanding-of-depression/>

(Cyrchwyd: 25ain o Dachwedd 2023)

Gray. L (2019) Anthropomorphism In Childrens Literature

Ar gael ar:

<https://maygibbs.org/news/anthropomorphism-in-childrens-literature/#:~:text=Anthropomorphism%20is%20the%20name%20for,heavily%20on%20non%2Dhuman%20dialogue.>

(Cyrchwyd: 25ain o Dachwedd 2023)

Montag. J, Jones. M, and Smith. L (2015) 'The Words Children Hear: Picture Books and the Statistics for Language Learning' *Psychological science*, Vol.26 (9):1489-1496

Parker. C (2007) Shaun Tan.

Ar gael ar:

<http://linesandcolors.com/2007/03/15/shaun-tan/#:~:text=Tan%20starts%20his%20paintings%20with,oil%20for%20the%20final%20rendering.>

(Cyrchwyd: 20fed o Ragfyr 2023)

Tan. S (2001) *The Red Tree* Australia and New Zealand: Hachette Australia Pty Limited

The Children's Book Review: Growing Readers

How Picture Books Play a Role in a Child's Development

Ar gael ar:

<https://www.thechildrensbookreview.com/how-picture-books-play-a-role-in-a-childs-development/>

(Cyrchwyd: 4ydd o Ionawr 2024)

Thomas. G (2015) 'The risograph and analogue resilience' *Scope, Art*, (11), p.96-99